YR YSTWYLL 1

ESEIA 60:1-6; SALM 72[1-7] 10-14;
EFFESIAID 3:1-12; MATHEW 2:1-12

● **Gweddi agoriadol**
Fel y darganfu y dynion doeth o'r dwyrain
Grist y baban
a chyflwyno eu rhoddion drud,
felly down ninnau ynghyd heddiw
i ddod â'n hoffrwm
o foliant a gwasanaeth
i'n Harglwydd a'n Gwaredwr.

● **Moliant**
Mae dy oleuni
yn datgelu i ni
harddwch y byd,
a ninnau'n ei weld drwy dy lygaid di
a'r bwriad
o'i greu.

Mae dy oleuni
yn datgelu i ni
dywyllwch ein byd,
a ninnau'n gweld pethau fel y maent
a sut mae dy blant,
o fod ar goll, yn gallu dod yn rhydd.

Mae dy oleuni
yn datgelu i ni
ryfeddod dy ras,
a ninnau'n gweld yn dy Fab
obaith iachawdwriaeth
a, thrwyddo ef, fywyd newydd.

● **Cyffes**
Pan ddisgleiria dy oleuni
ar y rheini mewn angen,
drwy newyn,
anghyfiawnder,
gorthrwm neu ofn,
a ninnau'n aros yn fud,
yn golchi ein dwylo
a symud ymlaen,
maddau i ni.

Daethost i'r byd
er eu mwyn hwy,
bwydo'r newynog,
iacháu'r cleifion,
gorchfygu ofn,
dweud dy feddwl,
dymchwel byrddau,
herio'r drefn,
ac wedyn estyn y ffagl
i ddwylo dy ddisgyblion.

Caniatâ i ni ddewrder,
trugaredd a ffydd
i daflu dy olau
i lefydd anghyfarwydd
a llai cysurus.

● Diolch

Dilynodd y doethion seren
ar daith hir ac anodd
i'r man lle gorweddai Iesu,
tra roedd y bugeiliaid nôl yn eu caeau
a holl ymwelwyr y dre wedi mynd
a bywyd bron fel yr oedd,
ar wahân i bresenoldeb
y Meseia hir-ddisgwyliedig –
plentyn gwerthfawr
yn cael ei anwybyddu gan y rhan fwyaf
a gerddai strydoedd cul Bethlehem.

Am bawb a deithiodd
a chanfod eu Meseia,
diolchwn i ti, a gweddïo
y bydd i'r rhai a aeth heibio'n dawel
ddychwelyd ryw ddydd
a chanfod yr un
a arhosodd yn amyneddgar amdanynt.